



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Ymgynghoriad ar Ffioedd Pridiannau Tir Lleol (Cymru) 2020

Adran:

Yr Is-adran Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Leol

Y Gweinidog sy'n gyfrifol:

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James

Dyddiad dechrau:

Mai 2020

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

LGFPMail@llyw.cymru

Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygiadau i Ffioedd Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru. Mae hyn mewn ymateb i'r *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* sy'n cael ei chynnal gan Gofrestrfa Tir EM. Mae Cofrestrfa Tir EM yn canoli ac yn digideiddio'r Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ar gyfer Cymru a Lloegr. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru (a Lloegr) drosglwyddo eu data i Gofrestrfa Tir EM fel y cyfarwyddwyd o dan Ddeddf Seilwaith 2015. Mae y tu hwnt i gwmpas Llywodraeth Cymru i ystyried effaith y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn ei chyfanrwydd.

Gallwch ddod o hyd i'r asesiad effaith sy'n cael ei gynnal gan Gofrestrfa Tir EM ar gyfer y *Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018* [yma](#). Deallir y bydd Cofrestrfa Tir EM yn cynnal un ar gyfer Cymru maes o law.

Offeryn statudol arfaethedig ar gyfer Ffioedd Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru

Yn unol â Deddf Seilwaith 2015, bydd angen i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i sicrhau bod Cymru yn cael ei chysoni â chofrestr ganolog Cofrestr Tir Ei Mawrhydi.

Ffioedd yng Nghymru

Gan mai mater a gadwyd yn ôl yw Pridiannau Tir Lleol, mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd yn unig i ddiwygio lefel y ffi a'r dull talu yng Nghymru. Yng Nghymru, £6 yw'r ffi ar gyfer 'chwiliad swyddogol' ('LLC1') o Gofrestr Pridiannau Tir Lleol. Er mwyn osgoi croes-gymorthdalwr wrth fudo i Gofrestr Cofrestrfa Tir EM, argymhellir y dylai Gweinidogion Cymru gynyddu lefel y ffi yng Nghymru am chwiliad swyddogol i £15. Bydd hyn yn cysoni'r ffi ac yn negyddu'r posibilrwydd y gallai prynwyr eiddo o Loegr groes-gymorthdalwr prynwyr eiddo yng Nghymru.

Dull talu

Yn dilyn mudo o awdurdodau lleol i Gofrestrfa Tir EM, bydd y ffi daladwy am chwiliad swyddogol a swyddogaethau penodedig eraill Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru yn daladwy i Gofrestrfa Tir EM. Felly, ni fydd y cynnydd arfaethedig i £15 ar gyfer chwiliad yn daladwy i awdurdodau lleol Cymru.

Dirymu Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977

Mae Rheol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt yn parhau mewn grym yng Nghymru ond maent wedi'u dirymu ar gyfer Lloegr o dan Reolau Pridiannau Tir Lleol (Lloegr) 2018. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu dirymu a'u disodli â rheolau newydd i gyd-fynd â'r rhai a bennwyd yn Lloegr, er mwyn helpu i fudo i gofrestr ganolog Cofrestrfa Tir EM.

1. Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth i ddiwygio Ffioedd Pridiannau Tir Lleol er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol Cymru fudo eu Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ('LLCR') i borth canolog a digidol newydd Cofrestrfa Tir EM. Mae Pridiannau Tir Lleol yn fater a gadwyd yn ôl ac eithrio'r pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio lefel y ffi a'r dull talu yng Nghymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar y mater hwn dros y 12 mis blaenorol (hyd at fis Gorffennaf 2020). Gan mai mater a gadwyd yn ôl yw hwn, mae'r cyfathrebu wedi bod yn gyfyngedig o ran ei gwmpas ond yn barhaus serch hynny. Mae negeseuon e-bost ac ymweliadau ag awdurdodau lleol wedi'u defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw gynnydd. Roedd awdurdodau lleol yn gallu mynegi unrhyw bryderon a oedd ganddynt am y *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* ac yn benodol y Ffi.

Gwahoddwyd awdurdodau lleol Cymru i fynychu gweminar ar-lein ar 17 Gorffennaf 2020. Cynhaliwyd y sesiwn gan Gofrestrfa Tir EM ond bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol i roi cipolwg ar yr offeryn statudol. Roedd awdurdodau lleol yn gallu gofyn cwestiynau ac fe'u hysbyswyd am yr ymgynghoriad arfaethedig.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cael gwybod am y newidiadau ac wedi 'cytuno mewn egwyddor' i barhau â'r *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol*, gan gynnwys y ffioedd.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg dros dro, ac ni chodwyd unrhyw faterion hyd yn hyn.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

2. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â chydymffurfiad y polisïau hyn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig wedi codi unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â lles cymdeithasol pobl a chymunedau yng Nghymru nac â lles diwylliannol Cymru neu'r Gymraeg. Nid yw ychwaith wedi codi unrhyw faterion yn ymwneud â lles economaidd busnesau a'r cyhoedd nac â'r amgylchedd.

Un effaith yr ydym yn ei monitro yw'r effaith ar gyllid awdurdodau lleol. Er hynny, gan fod hwn yn faich newydd mewn perthynas â mater a gadwyd yn ôl, mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU gynnal asesiad beichiau. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ran Cofrestrfa Tir EM yn gweinyddu'r baich taliadau yn Lloegr. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y taliadau i awdurdodau lleol Cymru ar ran Cofrestrfa Tir EM.

Gellir gweld asesiadau o faich gwybodaeth Cofrestrfa Tir EM ar gyfer y *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* yma. Mae CLILC wedi bod yn 'cytuno mewn egwyddor' ar egwyddorion yr asesiadau baich hyn ar ran awdurdodau lleol Cymru.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

3. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

4. Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Byddwn yn parhau i adolygu'r Aseiad Effaith Integredig wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

